Canolfan Saith Seren - Gorffennaf / Awst

Daeth yr hen ffefrynnau 'Y Moniars' i'n difyrru ni unwaith eto dros yr haf a roedden nhw wych fel arfer

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Y Clawdd a dyma bawb yn astudio'r rhifyn diweddaraf.

Daeth Wynne Roberts, yr 'Elvis Cymraeg' atom a chawson ni noson fendigedig yn ei gwmni. Dyma fo gyda'i grwp newydd o ferched i ganu harmoniau iddo!

Perfformiodd 'Y Gogs', sef Matthew a Rosie, yn Saith unwaith eto mewn noson i godi arian at elusen.

Ar ôl cyffro Ewro 2016, trefnwyd sesiwn 'Swopio Sticeri Pêl-droed' gan Menter Maelor.

Canolfan Gymraeg
Saith Seren - Medi

Cawsom noson hwyliog iawn yng nghwmni'r canwr a digrifiwr Hywel Pitts. Daeth 'Y Tai Sanctaidd' atom o Gaernarfon, ac yn eu cefnogi roedd band ifanc lleol 'The Dread'.

Braf oedd gweld gwersi Cymraeg yn ail-ddechrau yn Saith Seren ar ôl gwyliau'r haf. Dyma ddosbarthiadau Aled Lewis Evans a Bob Edwards. Yn dilyn ail-strwythuro Cymraeg i Oedolion nid oes cymaint o wersi Cymraeg yn Saith Seren, ac felly llai o incwm, ond rydym yn falch o'r dosbarthiadau sydd ganddom.

Mae copiau wedi'u fframio o'r 25 llun sydd ar waliau Saith Seren ar werth am £20 (£15 i gefnogwyr). Mae'r lluniau yn adrodd straeon o Hanes a Diwylliant Cymru (Owain Glyndŵr, Gwynfor Evans, Saunders Lewis, John Charles, Ray Gravell, Hedd Wyn, Gwenllian, Michael D. Jones, Ifan ab Owen Edwards, Tryweryn, Islwyn Ffowc Elis, Calon Lân, Hen Wlad Fy Nhadau…..). Anrheg dolig perffaith! Cysylltwch â Chris Evans ar 07885567512 os hoffech chi gopi wedi fframio o un o'r lluniau.

Canolfan Gymraeg Saith Seren - Hydref

Enillwyr cwis Saith Seren a Menter Maelor, Stephen, Andy, Carol ac Anne wrth eu boddau yn curo tîm staff Ysgol Morgan Llwyd! (isod)

Braf oedd gweld nifer o Gymry ifanc o chweched dosbarth Ysgol Morgan Llwyd yn cystadlu yn y cwis. Mae nhw'n benderfynol o guro eu hathrawon y tro nesaf!

Bu Bethan Kilfoil yn cyfweld dysgwyr Saith Seren ar gyfer rhaglen radio BBC 'World Service'.

Daeth band o Borthmadog, 'Synnwyr Cyffredin' atom a pherfformio'n wych.

Carl Clowes, un o sylfaen-wyr Nant Gwrtheyrn, yn trafod ei lyfr hu-nan-gofi-ant.

Dyma Marc, Judith, Chris, Osi-an a Deiniol yn nhref Wrecsam yn hyrwyddo 'Diwrnod Sumae / Shwmae' "Dwedwch 'S'mai' neu dan ni'n saethu!"

Bu noson godi arian ac ymwybyddiaeth o Aw-tistiaeth yn ddiweddar. Dyma'r A.C. Mark Ish-erwood yn diolch i'r siaradwr gwadd An-drew Edwards.